**Ieuan Wyn Jones AC/AM**
**Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref your ref
Ein cyf/Our ref our ref; MB/DFM/0489/09

Mick Bates A.C.
Cadair y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Mehefin 2009

Annwyl Mick

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNALIADWYEDD AR 10 MEHEFIN 2009**

Fe wnaethoch ysgrifennu ataf ar 29 Ebrill a 7 Mai yn fy ngwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cynaliadwyedd er mwyn rhoi tystiolaeth bellach i'r Pwyllgor ar y camau a gymerwyd o fewn fy mhortffolio i brif ffrydio datblygu cynaliadwy.

Cyflwynais bapur ar gyfer y cyfarfod ar 2 Ebrill 2009 (copi wedi'i atodi) ac roedd fy swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Yn y llythyr hwn rwy'n ymateb i'r pwyntiau penodol a godwyd gennych yn dilyn hynny.

**1. Offeryn Integreiddio Datblygu Cynaliadwy**
Mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb yn ein Hofferyn Integreiddio Datblygu Cynaliadwy. Amgaeaf gopi o'r ddogfen ddrafft sy'n cael ei chwblhau. Gan fod gwaith arni'n mynd yn ei flaen, dim ond yn Saesneg y mae'r ddogfen ar gael.

**2. Tystiolaeth o'r Cyflawniadau**
Mynegodd y pwyllgor bryder am y cyflawniadau hyd yn hyn. Byddwn yn cynnig yr enghreifftiau canlynol o'n cyflawniadau i gefnogi busnes ac adfywio:

1. Adeiladau Cynaliadwy: Mae fy Adran ar flaen y gad wrth ddarparu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar adeiladau cynaliadwy. O ganlyniad, mae rhestr hirfaith o brosiectau naill ai wedi cael cymorth grant neu wedi'u hadeiladu ar dir a werthwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd yn cyflawni rhagoriaeth BREEAM.

2. Rhaglen Braenaru Carbon: Mae fy Adran wedi sefydlu Grŵp Braenaru Carbon i nodi prosiectau newydd o bwys yr ydym yn eu datblygu, fel ein hunain ac mewn partneriaeth ag eraill, lle mae cyfle cynnar i wneud cynnydd wrth ddarparu datblygiad carbon sero.

3. Partneriaeth y Cymoedd: Mae'r rhaglen hwn yn gwneud cyfraniad positif i feysydd allweddol cynllunio a darparu gwasanaethau'r amgylchedd, treftadaeth a thwristiaeth ledled Cymoedd y De. Bydd hefyd yn cyfrannu at agendâu fel iechyd, addysg a lleihau trosedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk

4. Gymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B); Mae fy Adran wedi cydweithio â'r Adran dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i lunio ateb a fydd yn sicrhau bod materion yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn rhan ganolog o'n dulliau cymorth busnes newydd.

**3. Dyrannu Adnoddau i brosiectau Trafnidiaeth gan gynnwys llwybr Rheilffordd i Faes Awyr Caerdydd**

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.
Bydd y cynllun yn nodi ein blaenoriaethau a'n cynlluniau ar gyfer trafnidiaeth dros y pum mlynedd nesaf ac yn rhoi mwy o bwyslais ar symud tuag at ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth. Wrth gyhoeddi'r flaenraglen rheilffyrdd bwriad y rhifau a ddyrannwyd i gynlluniau er mwyn nodi ble roeddent ar y map o Gymru, nid i flaenoriaethu'r cynlluniau mewn unrhyw ffordd. O ran y cynlluniau a restrwyd yn y cyhoeddiad, fe'u dosbarthwyd i bedwar categori. Roedd y gwelliannau i amlder y trenau ar linell Bro Morgannwg yn y categori uchel yn amodol ar ddichonoldeb a datblygiad achos busnes lle bo'n briodol.

**4. Monitro a Meincnodi'r lleihad mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ar ôl 2011**

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am sut y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu monitro ar ôl 2011. Rydym yn gweithio â chydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac eraill i ddatblygu dulliau o asesu ôl-troed carbon. Mae hwn yn faes cymhleth gan fod effeithiau newid hinsawdd yn aml yn anuniongyrchol ac yn anodd eu mesur. Fodd bynnag, bydd gan Gymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B) ddull o fesur arbedion allyriadau o effeithlonrwydd adnoddau ac ymyriadau rheolaeth amgylcheddol.

Sefydlwyd ffrwd waith ar draws yr adrannau yn dilyn argymhelliad gan y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r ffrwd waith yn y broses o ddatblygu llinellau sylfaen a dulliau asesu, a fydd yn gysylltiedig â pholisïau Adran yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth.

**5. Cysylltu polisïau ym mhortffolio Adran yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth â'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy**

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac eraill i sicrhau bod ein polisïau yn bodloni'r gofyniad yn y cynllun Datblygu Cynaliadwy. Byddwn yn addasu ein Hofferyn Integreiddio Datblygu Cynaliadwy er mwyn adlewyrchu'r cynllun Datblygu Cynaliadwy newydd yn well.

Rydym wedi cynhyrchu Canllawiau Bioamrywiaeth fanwl ar gyfer yr Adran, sy'n hyrwyddo camau bioamrywiaeth positif mewn ymateb i Ddyletswydd Bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig

Mae fy Adran yn datblygu tîm cryf o Eiriolwyr Datblygu Cynaliadwy a thîm Technegol cefnogol sydd â rôl glir i ddarparu cyngor ar Ddatblygu Cynaliadwy a chyngor amgylcheddol i lywio a dylanwadu ar bolisi, strategaeth a chyflawni.

**7. Pa ganran o'r polisïau gafodd radd 'gweddol' neu 'dda' o ran 'amgylchedd cynaliadwy' ar ôl eu hasesu drwy'r Offeryn Integreiddio Porth i Bolisïau?**

Mae dau bolisi wedi bod drwy'r Offeryn Integreiddio Porth i Bolisïau. Sgoriodd yr ymgynghoriad Strategaeth Swyddi Gwyrdd raddfa 'da', a'r Strategaeth Drafnidiaeth a aeth drwy'r porth i bolisïau cynharach raddfa "gweddol".

Gobeithio bod yr uchod yn ateb eich ymholiadau ac edrychaf ymlaen at ymhelaethu ar hyn neu ymateb i unrhyw bwyntiau ychwanegol pan fyddaf yn mynychu'r cyfarfod ar 10 Mehefin.

**Ieuan Wyn Jones**
**Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for the Economy and Transport**

| | | |
|---|---|---|
| **To:** | 1. Deputy First Minister | [Ref] |
| **From:** | | CC: |
| | Ext | |
| | Fax | |
| **Date:** | | |

**[TYPE THE SUBJECT OF YOUR MINUTE HERE]**

[Type the text of your minute here]